



## Cofnodion Grŵp Gweithredu Lleol

Cofnodion Grŵp Gweithredu Lleol Gwynedd - LEADER.

25.4.2018

Clwb Pêl droed, Porthmadog

### Yn Bresennol:

<b>Cynrychiolaeth o'r Sector Fenter:</b>		
Ian Nellist	(IN)	FSB
Dafydd Watts	(DW)	Ymddiriedolaeth Arbed Ynni
Gwion Llwyd	(GL)	Dioni Ltd
Gwennan Williams	(GW)	Bwyty Lleu
Menna Jones	(MJ)	Antur Waunfawr (Cadeirydd Dros Dro)
<b>Cynrychiolaeth o'r Sector Gwirfoddol:</b>		
Craig ab Iago	(CI)	Dyffryn Nantlle 2020
Arwel Jones	(AJ)	Partneriaeth Llyn
Ceri Cunningham	(CC)	Cwmni Bro Ffestiniog
David Ingham	(DI)	DIY Industries Cyf
<b>Cynrychiolaeth o'r Sector Cyhoeddus:</b>		
O G Thomas	(OG)	Un Llais Cymru
Helen Pye	(HP)	Parc Cenedlaethol Eryri
<b>Cynrychiolaeth o Gyngor Gwynedd:</b>		
Dylan Griffiths		Cyngor Gwynedd - Gwynedd Ddigidol
Lindsey Ellis Edwards		Cyngor Gwynedd - Rheolwr Adfywio
<b>Cynrychiolaeth o Fenter Môn/ Arloesi Gwyendd Wledig:</b>		
Dafydd Gruffydd	(DG)	
Rachel Roberts	(RR)	
Eleth Peate	(EP)	
Aaron Warren	(AW)	
Rhian Hughes	(RH)	





## Cofnodion Grŵp Gweithredu Lleol

Pwynt	Manylion	Gweithred
<b>Cyfarfod Grŵp Gweithredu Lleol</b>		
1.	Cafodd croeso ei ymestyn i bawb i'r cyfarfod gan DG a diolchodd I Menna Jones am gadeirio'r cyfarfod yn absenoldeb Alun Evans sydd yn derbyn triniaeth yn yr ysbyty, Dymunodd DG gwellhad buan iddo.	
2.	Derbyniwyd ymddiheuriadau gan 5 aelod trwy law RR. <ul style="list-style-type: none"> <li>Alun Evans (Cadeirydd)</li> <li>Dr Einir Young - Prifysgol Bangor</li> <li>Aled Jones-Griffith - Grŵp Llandrillo Menai</li> <li>Delyth Vaughan Rowlands - Mantell Gwynedd ( Mamolaeth)</li> <li>Siân Tomos - Gisda Cyf Anwen Jones</li> <li>*Dywedodd RR fod Delyth erbyn hyn ar gyfnod mamolaeth ac felly bydd AGW yn edrych mewn i ail lenwi ei lle.*</li> </ul>	
3.	<b><u>Datganiadau o Ddiddordeb</u></b> Cwblhaodd Dafydd Watts ffurflen Datgan Diddordeb i Gais Cyd Ynni.  <b>Diweddariad Staff</b> Dywedodd DG bod Zoe wedi dychwelyd yn nôl rhan amser ac wedi setlo yn dda.	
4.	<b><u>Cofnodion Cyfarfod 01/02/2018</u></b> <u>Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod fel rhai cywir.</u> <u>Cynigiwyd gan : Menna Jones</u> <u>Eiliwyd gan : Helen Pye</u> Nododd Dafydd Watts ei fod yn gweithio I Ymddiriedolaeth Arbed Ynni ac nid i Severn Wye. Nododd DG nad ydy prosiect 'Amgueddfa Pop-Up' yn mynd ymlaen oherwydd bod ANHE (Ardal Naturiol Harddwch Eithriadol) wedi gwrthod y cais ac felly nid oes arian cyfatebol ar ei gyfer. Dywedodd AJ fod y swyddogion ANHE yn gallu cymeradwyo arian tuag £3k ac i beilota un digwyddiad os allith AGW gyfrannu hefyd. Derbyniwyd yna fod gweddill o'r cofnodion yn gywir.	
5.	<b><u>Adroddiad Ariannol</u></b> Rhoddodd RR gyflwyniad ar yr adroddiad ariannol gan gyflwyno'r tabl cyllid. Dywedodd fod yna werth £422,505 o geisiadau wedi'u cymeradwyo yn y cyfarfod diwethaf ac felly bod £919,410.38 wedi'i glustnodi hyd yma. Mae ceisiadau heddiw werth £75,663 gyda £2,000 o arian cyfatebol gan Gyngor Gwynedd. Erbyn mis Gorffennaf (LAG nesaf) bydd rhaid meddwl am geisiadau sydd yn cynnwys mwy o arian cyfatebol. Dywedodd DG fod yna drafodaethau wedi cychwyn gyda'r NDA I roi arian cyfatebol eto tuag at y rownd nesaf ond ni ellir cael cadarnhad o hyn am 8/9 mis. Yn y	





## Cofnodion Grwp Gweithredu Lleol

	<p>cyfamser felly, mae'n ddyletswydd ar AGW i gael arian cyfatebol o fewn ceisiadau yn y dyfodol. Eglurodd DG hefyd fod y proffil gwariant yn mynd a ni tuag at 2021 ond bod modd ymestyn LEADER tuag at ganol 2023 ac nad ydy tanwario felly yn broblem. Dywedodd hefyd fod yna benawd 'unrecoverable VAT' yn y proffil. Gan nad ydy llawer o'r prosiectau yn cynnwys TAW, mi fuasai'r arian yma yn gallu helpu tuag at gyflogau a'r gweddill o'r arian yn gweithredu prosiectau. Mae sôn y bydd yna gyllid trawsnewidiol ar gael wedi LEADER ond nid oes gwybodaeth ynglŷn â hyn eto. Noddodd DG y bydd AGW yn trafod a chael cadarnhad y LAG llawn cyn symud unrhyw arian o fewn y proffil.</p>	
6.	<p><b><u>Gwefan AGW/Pecyn Gwybodaeth</u></b> Rhoddwyd gopi o draft 1af y Pecyn Gwybodaeth i'r aelodau I gyd ar ddechrau y cyfarfod. Dywedodd DG fod hi'n bwysig ein bod yn rhannu gwybodaeth ar brosiectau, rhannu ymarfer da. Bwriad y pecyn gwybodaeth yw cyflwyno beth sydd wedi cael ei wneud, pam mae wedi cael ei wneud a rhannu 'tips' ar sut i ail adrodd yn llwyddiannus. Bydd yna becyn gwybodaeth ar gael i bob prosiect a fydd yn cynnwys fideos a linciau digidol. Yr oedd sylw wedi codi yn yr is-grŵp fod yr aelodau yn awyddus i wybod beth sydd wedi digwydd i brosiectau ar ôl iddyn nhw gau. Bydd y pecyn gwybodaeth yma ar y wefan AGW yn ymateb i hyn. Bydd gwybodaeth am brosiectau sydd heb weithio, wedi cael symud ymlaen neu wedi gorffen gyda dim dilyniant. Dywedodd AW fod y wefan bron yn barod, a dylai fod yn fyw yn y misoedd nesaf. Mae'n cymryd amser i drosglwyddo gwybodaeth o'r hen wefan i'r un newydd.</p> <p><b><u>Diweddariad - prosiectau cyfredol a sylwadau:</u></b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dangoswyd uchafbwyntiau prosiectau 2017 drwy fideo a baratowyd gan Eleth ( Swyddog Marchnata)</li> </ul> <p><b><u>Amser i Fentro</u></b> Rhoddodd RH ddiweddariad ar y cynllun:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn y cyfarfod diwethaf cyflwynwyd yr ymgeiswyr llwyddiannus sef Raymond, Eryl, Jacqui a Lois.</li> <li>• Yn anffodus mae Raymod wedi gorfod tynnu allan o'r cynllun oherwydd ei fod wedi cael ei wneud yn ddi-waith gan Gyngor Gwynedd ac felly yn gorfod canolbwyntio ar bethau eraill.</li> <li>• O ran yr ymgeiswyr eraill, mae pethau wedi bod yn symud yn dda iawn. Maen nhw gyd wedi derbyn gweithdy mewn cyfryngau cymdeithasol a chyngor brandio. Mis nesa mi fyddan nhw'n mynychu gweithdy ariannol</li> </ul>	





## Cofnodion Grwp Gweithredu Lleol

ac un arall ar sut i dynnu lluniau addas i'w busnesau i'w gwefannau ayb.

- Mae nhw'i gyd hefyd yn paratoi dyddiadur wythnosol ar ein cyfer i ni gael gweld pa waith ymchwil maen nhw'n wneud ar liwt eu hunan a'r datblygiadau maen nhw wneud dros y cyfnod.

### Jacqui –

- Mae Jacqui wedi bod wrthynt hwy ddatblygu 11 o wahanol flas o bwdins yn y potiau jam. Mae hi wedi bod yn prisio ei chynnyrch ac wedi bod yn arbrofi ar deulu a ffrindiau pa flas ydy'r gorau
- Mae hi wedi derbyn ymweliad gan Swyddog Iechyd yr Amgylchedd sydd wedi cadarnhau bod ei chegin hi yn y cartref yn dderbyniol i baratoi'r pwdinau.
- Ei bwriad hi ydy cymryd archebion drwy ei dudalen Facebook a gweld sut eith pethau cyn gwerthu mewn siopa lleol.
- Mae hi dal I weithio ar enw i'r busnes.

### Eryl-

- Enw'r busnes fydd 'Gyda Llaw' gan Eryl
- Mi fydd yna ddau ochr i'r busnes lle fydd hi'n darparu partïon plant drwy greffttau ac yr ochr arall ydy gweithdai creadigol ar gyfer rheini sydd yn byw gyda rhyw fath o iechyd meddwl.
- Mae Eryl wedi bod yn brysur iawn yn cysylltu â grwpiau addas fel rhan o'i hymchwil. Mae hi hefyd wedi bod yn mynychu digwyddiadau gyda Busnes Cymru ac mae'n bosib y gwneith hi gychwyn rhywbeth tebyg i Men's Sheds a'i alw yn She Sheds.

### Tesni –

- Mae Tesni wedi cael llawer iawn o sylw ers i'r fideo ohoni fynd ar y we. Mae'r Daily Post wedi rhedeg y stori, Radio Cymru, rhaglen Aled Hughes a rhaglen ITV Coast & Country eisiau gwneud eitem arni.
- Enw'r busnes fydd Llwybrau Defaid Eryri a'i bwriad yw cychwyn y fenter ar Orffennaf 1af.

Dangoswyd dau fideo i'r aelodau sef fideo yn cyflwyno Jacqui a Lois - mae'r ddau fideo hyn wedi derbyn llawer iawn o sylw ar gyfryngau cymdeithasol.





## Cofnodion Grwp Gweithredu Lleol

	<p><b><u>Tŷ Digidol</u></b> Rhoddodd RR diweddariad ar y cynllun yn absenoldeb KHE. Dywedodd fod y sesiynau cychwynnol wedi cymryd lle i adnabod anghenion y defnyddwyr. Y cam nesaf bydd i adnabod pa declynnau digidol fydd yn addas yn y tŷ. Dangoswyd fideo byr o'r prosiect hyd yn hyn.</p> <p><b><u>Dementia - 'Geo Fencing'</u></b> Rhoddodd RH diweddariad ar y cynllun hyd yn hyn. Pythefnos yn nôl trefnwyd sesiwn plannu planhigion yn Frongoch ar gyfer rheini sydd yn byw gyda Dementia a'u gofalwyr. Cafwyd 6 yn cymryd rhan a chafodd RH y cyfle i siarad gyda'r gofalwyr i dderbyn eu barn ar y prosiect. Yr oedd pob un o'r gofalwyr yn croesawu y syniad o freichled ar fraich eu partner neu y person mae nhw'n gofalu drosto er mwyn iddyn nhw gael rhyw fath o annibyniaeth tra oeddau nhw'n ymweld â Frongoch. Mae AGW yn gweithio yn agos iawn gyda Chyngor Gwynedd I weld pa fath o dechnoleg sydd yn addas i'w ddefnyddio. Bydd RH yn mynychu cyfarfod Ddydd Gwener gyda'r Cyngor I drafod hyn. Mi fydd yr ail sesiwn plannu yn cymryd lle canol mis nesa.</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Dangoswyd fideo byr o'r sesiwn cyntaf.</li></ul> <p><b><u>Peiriant Fendio Cynnyrch Lleol</u></b> Rhoddodd RR ddiweddariad ar y cynllun hwn. Cymeradwyd y cynllun yma yn y cyfarfod diwethaf lle byddem yn prynu peiriant fendio a'i gyflenwi gyda chynnyrch lleol dros gyfnod o chwe mis dros yr haf. Mae'r galwad agored wedi cymryd lle i roi cyfle i gynhyrchwyr lleol datgan diddordeb i roi eu cynnyrch yn y peiriant. Mae'r cynllun wedi cael; llawer iawn o sylw yn y wasg (Radio Cymru, Daily Post, Cambrian News, BBC Wales a Radio Wales). Mae AGW wedi derbyn 8 cais. Dywedodd RR bod angen galwad agored nesaf i weld lle fydd y lleoliadau addas i osod y peiriant. Mae Plas Heli a Portmeirion eisoes wedi datgan diddordeb ond efallai bod angen meddwl a llefydd eraill e.e. pentref lle mae'r siop leol wedi cau, man twristiaeth neu mewn maes gwerysyla. Y busnesau sydd wedi datgan diddordeb yw: • Dŵr Cerist, Llaethdy Llŷn, Te a Cofi, Coffi Poblado, Pleser Pur ac Oinc Oinc, Popty, Jamiau Cath Parri. Mae yna argymhellion wedi'u nodi nad ydy Plas Heli yn lle addas oherwydd ei fod yn rhy debyg i Bortmeirion ac yn lleoliad distaw. Cynigiodd HP fod ei leoli mewn maes gwerysyla yn syniad da er mwyn rhoi'r cysylltiad rhwng ymwelwyr a chynnyrch lleol. Dywedodd RR fod Inigo Jones wedi datgan diddordeb fel lleoliad. Dywedodd HP fod yna le ym maes parcio Pen Y Pass (gyda'r</p>	
--	---	--





## Cofnodion Grwp Gweithredu Lleol

	<p>hostel wedi'i leoli dros y ffordd. Cyn belled nad yw'r cynnyrch yn cystadlu gyda bwyd y caffi.</p> <p><b><u>LoRaWAN</u></b></p> <p>Eglurodd RH ers y cyfarfod diwethaf mae yna ddau weithdy wedi cymryd lle yng Nglynllifon. Cynhaliwyd y cyntaf ym mis Chwefror lle cafwyd 32 yn bresennol. Pwrpas y gweithdy yma oedd cyflwyniad i beth yw LoRaWAN ac i hel syniadau arloesol. Cafwyd llawer o syniadau gwahanol yn deillio o'r sesiwn yma e.e. teclyn i fesur lefel mewn 'slurry pit' ac un i fesur llifogydd mewn trefi felly yn rhoi rhybudd allan yn fuan. Cyn i'r gweithdai gychwyn, mi oedd Mark Stanley (roedd yn rhedeg y sesiynau) wedi gyrru sensors o flaen llaw i Glynllifon.</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Un o gwmpas gwddw dafad i fonitro ei symudiadau hi</li><li>• Un mewn oergell i fonitro tymheredd brechlyn y moch</li><li>• Sensor ar un o'r giatiau</li></ul> <p>Mi oedd yr ail weithdy yn fwy 'technegol' a rhyngweithiol lle oedd n'i'n gallu cysylltu dyfeisiau i'r rhyngwrdd. Y bwriad ydy i ddefnyddio Glynllifon fel lleoliad i arddangos sut allith LoraWan a Rhyngwrdd y Pethau rhoi budd nid yn unig i ffermydd ond i drefi, busnesau lleol a phreswylwyr Cymru Wledig. Bydd cyfres o ddigwyddiadau yn cael eu cynnal dros y misoedd nesa i hyrwyddo hyn ac i'r cyhoedd gweld gwerth yn y dechnoleg. Mae yna fwriad hefyd, dibynnu ar y cyllid i ddatblygu prosiectau Lorawan tu draw i waliau Glynllifon ac i ehangu'r rhyngwrdd ar draws Gwynedd. Dangoswyd fideo byr o'r gweithdy cyntaf. Dywedodd DG y bydd 10 sensor yn cael ei osod yng Nglynllifon i weld budd y dechnoleg mewn maes amaetha di-amaeth.</p> <p><b><u>Cronfa Cymunedau Creadigol</u></b></p> <p>Eglurodd RR yn y cyfarfod diwethaf, cymeradwyd y cynllun yma lle mae cronfa o arian i gael ar gyfer cymunedau sydd yn gallu ymgeisio hyd at £10,000. Mae £100K o arian yn y gronfa gyda cheisiadau tuag at astudiaethau dichonoldeb, offer digidol, unrhyw gymorth a all helpu nhw fod yn fwy cynaliadwy.</p> <p>Mae'r rownd gyntaf wedi bod a derbyniwyd 8 cais gyda 6 wedi'u cymeradwyo i'r swm o £40,524 o'r gronfa.</p> <p>Y ceisiadau sydd wedi'u cymeradwyo yn Rownd 1 yw:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Tafarn Yr Heliwr (Nefyn) - Cynllun Busnes - £4800</li><li>• Siop Griffiths (Penygroes) - Offer Digidol - £8658</li></ul>	
--	---	--







## Cofnodion Grwp Gweithredu Lleol

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gisda (Caernarfon) - Cynllun Busnes - £9286</li> <li>• Hafod Ceiri - Cynllun - £4030</li> <li>• Plas Heli - Astudiaeth - £4750</li> <li>• Meithrinfa Maesywaun - Astudiaeth adleoli - £9000</li> </ul> <p>Swm ar ôl i'w glustnodi yw £59,476. Mae pob cais angen ei gymeradwyo gan aelodau LAG ond drwy e-bost yn unig ac nid mewn cyfarfod llawn. Mae'r rownd nesaf ar agor rŵan ac mi fydd yna alwad agored i gymunedau wneud cais. Yr oedd y ceisiadau drwy'r rownd gyntaf wedi dod drwy'r Swyddogion Adfywio.</p> <p>Dyddiad Cau i Rownd 2 ar Fehefin 4ydd.</p> <p><b><u>B4RN yng Ngwynedd</u></b> Eglurodd DG ei fod wedi bod ar daith astudiaeth i Lancashire yn ddiweddar gyda Peter Williams Llywodraeth Cymru i weld cynllun ar waith sef B4RN (Broadband for the Rural North Ltd). Mae B4RN yn rhwydwaith band eang ffibr optig a gynlluniwyd yn broffesiynol ac sydd wedi'i gofrestru fel cymdeithas budd-dal cymunedol dielw, ac yn cael ei redeg gan dîm lleol pwrpasol gyda chymorth tirfeddianwyr a gwirfoddolwyr. Maent yn cynnig band eang FTTH 1,000Mbps i bob eiddo yn y gymuned sydd yn derbyn y gwasanaeth ac am £30 y mis. Mi oedd y gwirfoddolwyr i gyd yn tyllu'r ffosydd eu hunain gan gadw'r costau i lawr, gosod y 'ducting' yn y ddaear ac yn yr oedd B4RN yn dod yno i chwythu'n ffibr drwy'r ducting.</p> <p><b><u>Cais Ymchwil dan £5k</u></b> Eglurodd DG hoffai AGW felly beilota cynllun tebyg yn Llanymawddwy sydd gyda'r un broblem. Cyflwynodd DG ffurflen gais am £3,000 tuag at astudiaeth dichonoldeb ac mae modd o bosib gwneud cais RCDF isod yr isadeiledd. Roedd yr aelodau i gyd yn gefnogol iawn o'r syniad.</p> <p><b>Cymeradwyd y cais ymchwil gan yr aelodau am swm o £3,000.</b></p>	
--	---	--

### Ceisiadau i'w Cymeradwyo:

7.	<p><b><u>AGW.077 Cyd Ynni - Cyflenwi Busnesau</u></b> Cyflwynodd RR y cais ar ran Cyd Ynni. Cais astudiaeth ydyw i geisio profi os yw'n ymarferol ac yn gost-effeithiol i werthu trydan i fusnesau lleol,</p>	
----	---	--





## Cofnodion Grwp Gweithredu Lleol

	<p>gan fanteisio ar y ffynhonnell ynni hydro sydd o fewn perchnogaeth gymunedol. Mae'r cais wedi rannu'n dri rhan, y rhan cyntaf fydd gwaith ymchwil i adnabod anghenion gosod wifren breifat rhwng Hydro Afon Goch a YHA Llanberis. Yr ail ran yw gwirio os yw'n bosib ac ymarferol i greu Clwb Ynni Lleol I fusnesau ym Methesda. Ac y drydedd ran yw ymchwil i opsiynau ar gyfer cynllun Hydro Afon Galedffrwd (Ynni Ocar). Eglurodd RR fod Ynni Ocar yn mynd trwy'r broses cynllunio ar hyn o bryd. Cyfanswm cost y cais yw £12,945. Roedd yr aelodau yn gefnogol iawn ac yn gweld budd i'r gymuned ehangach o'r prosiect.</p> <p><b>Cymeradwyodd yr aelodau LAG y prosiect peilot Cyd Ynni ar gyfanswm o £12,945</b></p>	
8.	<p><b><u>AGW.079 Bws Harlech Hoppa</u></b></p> <p>Eglurodd DG fod busnesau Harlech (stryd fawr) yn credu/awgrymu bod y Castell yn derbyn gormod o sylw gan ymwelwyr ac nad dyn nhw'n ymweld â'r busnesau nhw. Mae yna ffocws wedi bod ar drafndiaeth i annog ymwelwyr ymweld â gweddill o'r dref. Comisiynwyd darn o waith gan Martin Higgitt (arbenigwr trafndiaeth) i weld os oedd yn ymarferol i greu peilot o'i fath. Bydd y peilot felly yn ariannu bws hoppa am gyfnod o 6 wythnos o Orffennaf 21ain - Medi'r 2il. Bydd teithwyr yn gorfod prynu tocyn ac mi fydd y bws yn rhedeg o'r dref a'r traeth i'r castell. Bydd yr incwm o'r tocynnau yn cynhyrchu 40% o beth fydd cost y bws ac fe fydd y gweithgaredd o gasglu'r data yn profi os yw'r model yn hyfyw. Os bydd y data'n dangos wedi'r cyfnod bod yn fodel yn gallu gweithio, bydd cynnig i'r busnesau a'r Cyngor Cymuned gyfrannu 60% er mwyn iddo fod yn gynaliadwy yn y dyfodol. Cost y prosiect yw £24,750 gydag oddeutu £5000 o incwm yn dod nôl i mewn o werthu tocynnau.</p> <p><b>Cymeradwyodd yr aelodau LAG y prosiect peilot Bws Hoppa Harlech ar gyfanswm o £24,750.</b></p>	
9.	<p><b><u>AGW. 078 Gwerth Yn y Wlad - Beicio Ffordd</u></b></p> <p>Cyflwynodd DG y cais hon. Mae yna nifer o seiclwyr yn dod i Wynedd ond yr her ydy sut i gael budd economaidd o hyn? Gyda'r cais yma, bydd yn alwad agored i adnabod 5 caffi sydd ar y llwybrau (bosib y Brailsford Trail) i ymgeisio i fod yn rhan o'r cynllun. Bydd gweithdy ar sut i ddarparu ar eu cyfer ac ar sut i farchnata'r busnes i'r maes yma. Bydd y peilot yn prynu offer ar gyfer pob busnes e.e. Stand seiclo, gorsaf atgyweirio seiclo. Bydd hefyd llawlyfr ar gael i rannu drwy Wynedd a digwyddiad cloi. Noder</p>	







## Cofnodion Grwp Gweithredu Lleol

	<p>derbyniwyd mewnbwn gan nifer o glybiau seiclo ar gyfer y cais yma ac mae hefyd yn clymu gyda strategaeth Cyngor Gwynedd. Cost y prosiect yw £28,000 gydag arian cyfatebol o £2000 gan Gyngor Gwynedd.</p> <p><b>Cymeradwyodd yr aelodau LAG y prosiect peilot Gwerth yn y Wlad - Beicio Ffordd ar gyfanswm o £26,000. (Gyda £2,000 o arian cyfatebol gan Gyngor Gwynedd, felly cyfanswm cost y prosiect yn £28,000).</b></p>	
10.	<p><b><u>AGW.080 Systemau Digidol i Gymunedau</u></b></p> <p>Cyflwynodd RR y prosiect yma. Bydd y peilot hwn yn ceisio profi a all technoleg ddigidol ar-lein fodern gynnig unrhyw atebion gyda chostau cynnal a chadw i gefnogi cynnal gwasanaethau cymunedol. Mae'r her yma wedi cael ei gyflwyno gan swyddogion adfywio'r Cyngor ac sydd yn her ar draws Gwynedd. Cymeradwyd cais gan yr is-grŵp o £1296 i wneud gwaith ymchwil i adnabod un sistem a all ymateb ar gyfer toiledau cyhoeddus, meysydd parcio a chanolfannau cymunedol.</p> <p>Mae'r gwaith ymchwil wedi adnabod systemau gwahanol a fuasai'n gallu gweithio o ran costau ( isel) ac yn hawdd i'w treialu.</p> <p>Y tair sistem sydd wedi'u hawgrymu yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Smartlock - ( ar gyfer canolfan gymunedol) lle mae yna côd gwahanol i rheini sydd yn ddefnyddwyr hir dymor a côd gwahanol ar gyfer rheini sydd ddim yn defnyddio'n rheolaidd. Mae hyn yn golygu nad oes angen gofalwr i agor a chau pob tro. (Cost £400 yn ogystal â chostau gosod)</li> <li>• Toiledau - Yn argymhell sistem 'Paypal' lle y bydd poster ar y wal yn rhoi manylion rhif neges destun ac i chi gyfrannu yn wirfoddol.</li> <li>• Parcio - mae yna her yma ar gyfer meysydd parcio sydd ddim yn cynnig i ymwelwyr dalu am ddiwrnodau ar y tro yn hytrach na pob awr. Y cynnig yw defnyddio sistem 'Parkonomy', sydd am ddim ond yn codi 20c ar y defnyddiwr ar ben beth fyddan nhw'n godi i barcio. Dywedodd RR y buasai rhaid cael trafodaeth a chefnogaeth adran meysydd parcio Cyngor Gwynedd ynglŷn â hyn wrth fod yn waith gweithredu ar y cynllun. Mae modd hyrwyddo hwn drwy westai lleol yn hytrach na yn y meysydd parcio.</li> </ul> <p>Dywedodd CI (ynglŷn â'r sistem toiled) nad oes gan bawb ffôn symudol i dalu ar lein. Nododd hefyd bod angen efallai meddwl defnyddio sistem 'Parkonomy' dim yn unig ar gyfer parcio dros nos ond pob awr hefyd. Mae yna gost enfawr i osod y peiriannau talu ac mae rhai hefyd wedi cael eu dwyn yn y gorffennol.</p>	RR i drefnu cyfarfod gyda Lindsey a Gwenan CG.





## Cofnodion Grwp Gweithredu Lleol

	<p>Dywedodd Lyndsey (CG) fod angen fwy o ddata ac analitycs ar gyfer y sustem 'Smartlock' e.e. beth sydd yn digwydd os nad yw'r drws y ganolfan wedi'i gau yn iawn?</p> <p>Nododd RR mai argymhellion yn unig yw'r rhain ac y bydd rhagor o waith ymchwil a trafodaethau gyda CG yn cael ei wneud i adnabod y dechnoleg gywir i'w dreialu.</p> <p><b>Cymeradwyodd yr aelodau LAG y prosiect peilot Systemau Digidol Cymunedol ar gyfanswm o £11,968</b></p>	
<b>Dyddiad Nesaf</b>		
11.	<b>Dyddiad cyfarfod: Gorffennaf 11eg Bwyty Blondin, Zip Worls Bethesda am 1.00pm</b>	

